# Y CABINET DYDD MAWRTH, 15 HYDREF 2024

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfrig Siencyn, Nia Jeffreys, Craig ab Iago, Dilwyn Morgan, Paul Rowlinson a Menna Trenholme.

**Hefyd yn bresennol-**
Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Huw Dylan Owen (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol) a Sioned Mai Jones (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

| | |
|---|---|
| Eitem 6: | Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant) a Jessica Mullan (Rheolwr Prosiect). |
| Eitem 8-9: | Ian Jones (Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol), Gail Ann Warrington (Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Llesiant) (Eitem 8) a Eurig |
| Eitem 10 | Huw Williams (Rheolwr Gwasanaeth Adnoddau Dynol) (Eitem 9). |
| Eitem 11 | Gerwyn Jones (Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd - Trafnidiaeth) a Ceri Hughes Thomas (Rheolwr Parcio a Gwaith Stryd).<br>Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd) a Bob Thomas (Arweinydd Tîm Polisi Cynllunio). |

## 1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd yr Aelodau Cabinet a'r Swyddogion i'r cyfarfod yn ogystal a gohebwyr o'r BBC oedd yn bresennol yn y Siambr.

Mynegwyd tristwch mawr yn sgil ymddiswyddiad pedwar Aelod Cabinet a cymerwyd y cyfle i ddiolch i'r pedwar am eu gwasanaeth a'u cyfraniad sylweddol i waith y Cabinet dros y blynyddoedd. Mynegwyd gwerthfawrogiad i waith yr Aelodau hynny gan ddatgan y bydd colled mawr ar eu holau.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Dewi Aeron Morgan (Pennaeth Cyllid) a Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol).

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw fater brys.

## 4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw fater yn codi o drosolwg a chraffu.

## 5. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 17 Medi 2024 fel rhai cywir.

## 6. LLECHEN LÂN – GWASANAETHAU CYMDEITHASOL POBL HŶN I'R DYFODOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dilwyn Morgan

**PENDERFYNIAD**

- Derbyniwyd canlyniadau gwaith Llechen Lân - Gwasanaethau Cymdeithasol Pobl Hŷn i'r Dyfodol (Atodiad 1).
- Mabwysiadwyd cyfeiriad strategol a chynllun gweithredu Llechen Lân (Atodiad 2).

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan fynegi bod yr adroddiad yn un unigryw, cynhwysfawr ac yn gosod cyfeiriad i wasanaethau pobl hŷn i'r dyfodol. Mynegwyd bod yr adroddiad yn un chwyldroadol ei gynnwys. Cymerwyd y cyfle i ddiolch i staff y Cyngor sydd wedi gweithio ar yr adroddiad â'r prosiect hwn sy'n cynnwys data a gwybodaeth hynod bwysig.

Nodwyd nol ym mis Mehefin 2023 sefydlwyd grŵp tasg a gorffen i wneud gwaith ymchwil i dueddiadau poblogaeth allweddol fydd yn effeithio ar wasanaethau pobl hŷn dros y blynyddoedd nesaf. Adroddwyd mai nod Llechen Lân oedd darganfod gwir gost o ddarparu gwasanaethau oedolion eleni er mwyn cynllunio ar gyfer y dyfodol. Eglurwyd bod y gwaith wedi bod yn swmpus a'n fanwl a bod gwybodaeth o amryw ffynonellau yn Sirol, Genedlaethol a'n rhyngwladol wedi cael ei gasglu a'i ddadansoddi.

Mynegwyd bod yr adroddiad yn casglu nad yw'r sefyllfa bresennol o ddarparu gofal cymdeithasol i bobl hŷn yng Ngwynedd yn gynaliadwy nac yn hyfyw. Amlygwyd bod y ffaith bod unigolion bellach yn byw yn hirach yn rhywbeth i'w ddathlu ac yn rhoi budd pellach cymdeithasol a diwylliannol i gymunedau.

Manylodd y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol ar gynnwys yr adroddiad. Nododd bod gwaith wedi ei wneud i edrych ar y newid sydd wedi bod yn nemograffeg y Sir a'r newid mewn poblogaeth yn y 10 mlynedd rhwng 2011 a 2021. Mynegodd bod yr adroddiad yn edrych ar ragfynegai'r boblogaeth, cyn belled â 2042, a beth fydd dylanwad hynny ar Wynedd. Manylwyd ar y pwysau ariannol disgwyliedig a ragfynegwyd yn yr adroddiad a'r heriau fydd yn wynebu'r gweithlu.

Amlygwyd y cynllun gweithredu a'r rhaglen waith i'r dyfodol sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad sy'n nodi'r pethau mae'r Adran Oedolion a'r Cyngor yn ceisio eu gwneud i liniaru'r effaith o newid mewn poblogaeth.

Ychwanegodd y Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant nad rhywbeth sydd yn mynd i ddigwydd yw'r heriau a amlygwyd yn yr adroddiad ond yn hytrach rhywbeth sydd eisoes yn digwydd. Mynegwyd y bydd cyfraniad Adrannau eraill megis Tai, Byw'n Iach ac Economi a Chymuned yn hanfodol a bod y mater hwn yn un i'r Cyngor cyfan roi mewnbwn iddo yn hytrach nag yr Adran Oedolion yn unig. I gloi nododd mai'r cam cyntaf yw adnabod canfyddiadau a'r prif negeseuon sydd angen eu cyfleu a sut i ymateb i'r heriau.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Diolchwyd am yr adroddiad gan gytuno ei bod yn bwysig ystyried yr hirdymor. Galwyd ar y Llywodraeth i ariannu gwasanaethau'r Cyngor yn ddigonol ond cydnabuwyd na fydd hyn yn ddigonol os yw pethau'n cario mlaen fel ag y maent ar hyn o bryd. Croesawyd y pwyslais yn yr adroddiad ar y gwaith ataliol i reoli'r galw ac i sicrhau bod trigolion y Sir yn byw bywydau yn fyw iach.
- Adlewyrchwyd ar ganfyddiadau brawychus yr adroddiad megis y bydd angen £24 miliwn yn ychwanegol heb ystyried chwyddiant, sydd yn gyfanswm o £70 miliwn, gan nodi y bydd llai o arian ond angen i gyflawni mwy o wasanaeth.
- Mynegwyd bod angen blaenoriaethu'r maes gofal a bod dyletswydd ar y Cyngor i ddefnyddio'r arian a'r adnoddau sydd ar gael mor effeithiol â phosib. Croesawyd y cyfeiriad yn yr adroddiad at edrych ar arferion gorau mewn Cynghorau eraill er mwyn cymharu â datblygu.
- Cymerwyd y cyfle i ddiolch yn fawr iawn i ofalwyr di-dâl y Sir. Credwyd bod angen amlygu rolau gofalwyr di-dâl ymhellach a gofynnwyd beth fedr gael ei wneud er mwyn eu cefnogi.
  - Mewn ymateb nodwyd fod y Cyngor a'r Adran Oedolion yn llwyr ddibynnol ar ofalwyr di-dâl yn y gymuned a bod y cyfraniad yma yn hanfodol i sicrhau gweithrediad gwasanaethau cymdeithasol. Credwyd bod 90% o ofal y Deyrnas Gyfunol yn cael ei ddarparu yn ddi-dâl. Nodwyd bod angen sicrhau cefnogaeth a thoriadau i ofalwyr di-dâl a bod y mater hwn yn derbyn sylw yn y cynllun gweithredu tymor canolig. Nodwyd bod yr elfen hon yn datblygu ond bod lle i weithio ymhellach ar anghenion gofalwyr di-dâl a trafodaethau i'w cynnal efo'r gofalwyr.
  - Nodwyd y bydd yr adroddiad yn cael ei chrynhoi a'i chyhoeddi yng nghylchgrawn Barn ac yn y Welsh Agenda yn fuan. Gobeithir y bydd negeseuon ymarferol yr adroddiad yn cael ei rhannu yn Genedlaethol ac yn destun sgwrs er credwyd bod cwestiwn gwleidyddol ehangach ynglŷn â'r gefnogaeth gyllidol a'r arian sydd ei angen ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol.
- Amlygwyd bod ffocws ar ddatblygiadau yn y maes technoleg yn yr adroddiad a gofynnwyd a gellir amlygu mwy am elfen y Gymraeg a phwysigrwydd yr iaith wrth gysidro'r datblygiadau hynny.
  - Cydnabuwyd yr her o gael gwasanaethau Cymraeg gan nodi bod amryw o systemau cyfrifiadurol yn cael eu defnyddio a chyfeiriwyd ar y term "Technology Enabled Care" sef technoleg sy'n galluogi pobl i fyw yn annibynnol. Nodwyd anaml iawn mae hwn ar gael yn y Gymraeg. Nodwyd bod y Cyngor yn gwthio ac yn hyrwyddo'r angen ieithyddol gan ychwanegu bod y Cyngor yn gweithio efo cwmnïau technoleg sydd yn datblygu'r math yma o wasanaeth er mwyn sicrhau ei fod ar gael yn y Gymraeg. Cydnabuwyd bod y Cyngor yn bell o gyrraedd y nod ar hyn o bryd ond mynegwyd yn sicr fod rhaid i hyn fod yn rhan o'r ateb i'r dyfodol.
- Credwyd bod yr adroddiad yn enghraifft o'r Cyngor ar ei orau ble mae dealltwriaeth o'r broblem, beth yw'r atebion a chynllun gweithredu ar sut i ddatrys y broblem.
- Tynnwyd sylw at y nifer o bobl ifanc sydd yn gadael y Sir gan wneud cais i unigolion neu deuluoedd ddychwelyd gan nodi bod grantiau ar gael i'w helpu.
- Nododd y Prif Weithredwr ei fod yn ymfalchïo yn y gwaith hwn gan nodi ei fod yn enghraifft dda o flaengynllunio. Eglurwyd bod yr adroddiad yn amlygu problemau difrifol a bod yr heriau hyn tu allan i allu'r Cyngor i'w datrys. Nodwyd

bod heriau cyflawni yn wynebu'r Cyngor flwyddyn nesaf oherwydd y bwlch ariannol o £15 miliwn heb sôn am heriau'r dyfodol. Credwyd bod angen 22 adroddiad fel hyn ar draws Cymru i sefydlu'r darlun Cenedlaethol ac yna strategaeth Genedlaethol i fynd i'r afael a'r problemau dros yr ugain mlynedd nesaf. Amlygwyd nad yw'r drefn bresennol yn gynaliadwy.

I gloi nododd yr Aelod Cabinet bod yr adroddiad yn ddogfen weithredol a bod yr Academi Gofal yn cael ei lansio ar 13 Tachwedd.

**7. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL RHIANT CORFFORAETHOL 2023-2024**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr)

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad sy'n adrodd ar waith y Panel Rhiant Corfforaethol ar gyfer y flwyddyn 2023-24.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei bod yn fraint Cadeirio'r Panel Rhiant Corfforaethol gan ei fod yn un o'r pethau pwysicaf mae'r Cyngor yn ei gyflawni. Dyfynnwyd rhan 1.2 o'r Adroddiad gan ei fod yn crynhoi'r hyn mae'r Cyngor yn ceisio ei gyflawni yn y maes.

Amlygwyd bod nifer o Aelodau Cabinet, Penaethiaid Adran, Swyddogion o'r Adran Plant a chynrychiolwyr o'r Awdurdod Iechyd yn aelodau o'r Panel ac maent yn edrych ar waith y Cyngor wrth gefnogi tua 280 o blant sydd yn ei ofal. Cyfeiriwyd at her ddiweddar o geiswyr lloches ar ben eu hunain sydd o ddiwylliannau gwahanol ac yn aml wedi wynebu trawma gan nodi bod 14 o blant sy'n ymgeiswyr lloches dan ofal y Cyngor ar hyn o bryd.

Tynnwyd sylw at rai o bwyntiau'r adroddiad oedd yn ymwneud â Chartrefi Grwpiau Bychain, cyfleon Addysg a Hyfforddiant i staff Ysgolion. Cyfeiriwyd at feysydd ble hoffai'r Cyngor wneud gwelliannau megis cynnal asesiadau iechyd ar blant sy'n dod mewn i ofal yn fwy amserol a cheisio denu rhagor o bobl i fod yn rieni maeth. Manylwyd ar y Cynnig Maethu sef pecyn cefnogaeth i rieni maeth sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd er mwyn annog mwy i fod yn rieni maeth.

Diolchwyd i Lois Owens am ei chymorth i lunio'r adroddiad yn ogystal â staff yr Adran Blant a Chefnogi Teuluoedd sy'n wynebu'r heriau a amlygwyd yn yr adroddiad yn ddyddiol yn eu swyddi.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth
- Cymerwyd y cyfle i dalu teyrnged i deuluoedd ac unigolion sy'n maethu gan nodi pa mor werthfawr yw'r hyn maent yn ei wneud ac amlygwyd pwysigrwydd cefnogi'r unigolion a'r teuluoedd hyn.
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd hyfforddiant yn y maes hwn gan amlygu ei bod yn hanfodol i Aelodau yn ogystal a staff y Cyngor gwblhau'r hyfforddiant.
- Ategwyd y diolchiadau i staff y Cyngor am eu gwaith a diolchwyd i'r Prif Weithredwr am amlygu y Cartrefi Bychain yn ei gyflwyniad yn ogystal ag

ymrwymiad y Cyngor i ddod yn Gyngor Trawma Ymwybodol fel sydd wedi ei nodi ym mhwynt 4.1 o'r adroddiad. Ymfalchïwyd yn yr ymrwymiad yma a cytunwyd ei fod yn flaenoriaeth.

- Gofynnwyd am fwy o fanylder ynghylch rhan 2.3.2 o'r adroddiad oedd yn cyfeirio at y defnydd o drefniadau lleoliadau heb gofrestriad (OWR).
  - Mewn ymateb nodwyd yn achlysurol nad oes lleoliad wedi ei gofrestru efo'r Arolygaeth CIW ar gael. Eglurwyd mewn sefyllfaoedd o'r fath, bod gofyn i'r Cyngor greu lleoliad sy'n golygu prynu tŷ neu rentu adeilad a chomisiynu gofalwyr neu ddarparu gofalwyr y Cyngor i ofalu am y plentyn. Nodwyd er bod y Cyngor yn sicrhau bod y lleoliad yn addas a diogel i'r plentyn, nid yw'n leoliad sydd wedi ei gofrestru. Credwyd mai dim ond 2 achos sydd erbyn hyn yng Ngwynedd.
  - Ychwanegwyd bod y Cynllun Cartrefi Bychain yn bwysig o ran sicrhau lleoliadau digonol yn y Sir fydd yn cael eu rhedeg gan y Cyngor ac wedi eu cofrestru efo'r CIW.
  - Cyfeiriwyd at agenda ehangach y Llywodraeth i geisio dileu elw o'r gwasanaeth plant. Mynegwyd cefnogaeth i'r egwyddor yma yn y maes gan yr Arweinydd gan holi os yw canlyniad hyn yn golygu costau uwch. Nododd y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol y bydd costau uwch yn y tymor byr er mwyn datblygu'r gwasanaethau ond na ddylai'r agenda hyn arwain at gostau uwch yn yr hirdymor. Ychwanegodd bod pawb yn gytûn bod dileu elw yn beth da ond bod cyrraedd y nod hwn yn her.
- Cyfeiriwyd at y trafodaethau efo'r Llywodraeth i wella'r gwasanaeth niwroddatblygiadol gan ofyn am ddiweddariad ar y trafodaethau hyn.
  - Adroddwyd bod y gwasanaethau niwroddatblygiadol a'r gwasanaeth awtistiaeth o fewn y Cyngor yn cyd-weithio efo gwasanaeth Derwen. Cydnabuwyd bod rhestrau aros Derwen yn hir sydd yn annerbyniol. Nodwyd ei fod yn her i'r gwasanaeth sydd yn gweithio mewn partneriaeth efo'r Bwrdd Iechyd yn ogystal â her i'r Bwrdd Iechyd. Nodwyd bod trafodaethau efo'r Llywodraeth a gyda'r Bwrdd Iechyd ynglŷn â hyn a gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i geisio mynd i'r afael a'r heriau.
  - Adroddwyd y bydd arolwg o'r gwasanaethau integredig yn dechrau'n fuan er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau yn addas a bod plant y Sir yn derbyn y gwasanaeth y maent eu hangen.
- Cydnabuwyd y gwaith sy'n digwydd yn gorfforaethol fel rhiant ac ategwyd y sylw blaenorol am yr angen am hyfforddiant a modd o rannu gwybodaeth am gyfrifoldebau rhiant corfforaethol.
- Cyfeiriwyd at yr heriau sy'n wynebu rhieni maeth a bod gwerth i ddysgu o brofiadau rhieni maeth er mwyn cael darlun gwell o'r heriau hyn. Nodwyd bod ymdrech ar y gweill i geisio denu rhiant maeth i fod yn rhan o'r Panel yn ogystal â phlentyn sydd wedi bod dan ofal y Cyngor i ddod i siarad efo'r Panel.

## 8. ADRODDIAD BLYNYDDOL IECHYD, DIOGELWCH A LLESIANT

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Menna Trenholme

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd yr adroddiad a chymeradwywyd yr argymhellion.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan amlygu bod effaith dwy flynedd o ganllawiau'r Llywodraeth ar COVID ac ôl effaith hynny ar lesiant staff yn parhau i fod yn effeithio'n sylweddol ar agenda Iechyd a Diogelwch y Cyngor. Nodwyd gyda gwasanaethau'n ailsefydlu eu hunain i'r normal newydd, a staff yn mynd drwy gyfnod pontio rhwng gweithio hybrid o fewn y swyddfeydd a gartref, bydd rhaid cefnogi Rheolwyr ac Arweinyddion Tîm wrth addasu i'r cam hwn.

Tynnwyd sylw at brif bwyntiau'r adroddiad, oedd yn cyfeirio at y ffigyrau damweiniau, rhaglen waith y gwasanaeth a materion Iechyd galwedigaethol. Ychwanegodd y Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol ei bod wedi bod yn gyfnod o symud i fodel gwahanol o weithio. Nodwyd bod y gwaith o adfer ar ôl y cyfnod COVID yn parhau a gwaith pellach i'w wneud wrth ddilyn fyny a'r gyrsiau hyfforddiant. Cydnabuwyd bod Rheolwyr y Cyngor yn ymateb yn dda i'r ceisiadau am hyfforddiant Iechyd a Diogelwch a'i bod yn galonogol bod staff y Cyngor yn cymryd materion iechyd a diogelwch o ddifri gan ei fod yn un o brif risgiau'r Cyngor.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Gofynnwyd sut mae Cyngor Gwynedd yn cymharu efo Cynghorau eraill ar faterion iechyd a dioglelwch a gofynnwyd a oes trefn o fesur.
  - Mewn ymateb nododd y Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol nad yw'n arferol mesur yn erbyn Cynghorau eraill. Nodwyd yn hytrach bod y Cyngor yn canolbwyntio a gweld beth yw'r cynnydd sy'n cael ei wneud yn fewnol. Ychwanegwyd bod y tîm Iechyd a Diogelwch yn hyfforddi mewn Siroedd eraill ac yn debygol o fod ar y blaen mewn rhai meysydd ond ddim mewn meysydd eraill. Nodwyd bod hyn yn bennaf oherwydd bod natur a gweithlu Cynghorau eraill yn amrywio sy'n golygu bod y risgiau yn amrywio.
- Ategwyd bod Iechyd a Diogelwch yn gyfrifoldeb ar holl weithlu'r Cyngor ar draws pob Adran yn ogystal ag Aelodau'r Cyngor.
- Cyfeiriwyd at y tabl Digwyddiadau Adroddwyd i RIDDOR gan holi pam na'r categori oren sef 'Arall' yw'r mwyaf mewn 3 allan o 5 mlynedd. Gofynnwyd os oes gwaith pellach angen ei wneud i ddeall hyn.
  - Mewn ymateb nodwyd mai AGID sydd yn dewis y categorïau a bod y categori 'Arall' yn niferus a'n cynnwys llawer o faterion a digwyddiadau gwahanol. Nodwyd ei bod yn bosib dangos beth sydd wedi ei adrodd a bod y wybodaeth ar gael.
- Holwyd os cafodd gwersi eu dysgu yn dilyn y digwyddiad aeth ymlaen i AGID am ddamwain ble bu i ddefnyddiwr gwasanaeth ddisgyn.
  - Nodwyd mewn ymateb bod AGID wedi ymwela â'r Cartref Preswyl dan sylw ac wedi rhoi argymhellion sy'n cael eu dilyn fyny mewn rhaglen waith ar draws y Cyngor.

## 9. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFLOGAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Menna Trenholme

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd yr adroddiad blynyddol ar gyfer 2023/24.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad oedd yn crynhoi prif weithgareddau yn y maes cyflogaeth o fewn y Cyngor yn ystod 2023/24. Nodwyd bod y wybodaeth yn yr adroddiad yn rhoi trosolwg cyffredinol o nodweddion gweithlu'r Cyngor ac yn rhoi sylwadau ar sut y mae hynny yn llywio rhai elfennau o'r strategaeth staffio. Amlygwyd bod yr adroddiad yn amlinellu rhai o brif faterion yn y maes hwn ar gyfer 2024/25.

Tywyswyd y Cabinet drwy'r adroddiad gan dynnu sylw at faterion absenoldebau salwch a'r dadansoddiad absenoldeb salwch fesul categori yn ogystal â phrosiect Cynllunio'r Gweithlu. Soniwyd am lwyddiannau'r cynlluniau Prentisiaethau a Hyfforddeion Graddedig sy'n denu gweithwyr ifanc i weithlu'r Cyngor. Cyfeiriwyd hefyd at y cynllun gweithio'n Hybrid a'r cynllun Cydraddoldeb.

Ychwanegodd y Rheolwr Gwasanaeth Adnoddau Dynol bod ffigyrau'r adroddiad yn cwmpasu Adrannau canolog y Cyngor yn ogystal â'r gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu lletya ac yn Awdurdod arweiniol arnynt fel GwE a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Nodwyd bod hyn yn dylanwadu ar yr ystadegau gan fod nifer uchel yn gweithio i'r gwasanaethau hyn.

Ategwyd llwyddiannau'r Cynlluniau Prentisiaethau a'r Hyfforddeion Graddedig gan nodi bod y Cynlluniau yma yn rhan o sgyrsiau pobl ifanc a bod cyfleoedd hyfforddi'r Cyngor yn cael ei frolio. Ychwanegwyd bod y cynlluniau yn agored i bobl o bob oedran. Nodwyd bod dros 300 wedi ymgeisio eleni am y ddau Gynllun sy'n ffigwr arbennig o dda. Amlygwyd bod ymdrechion hefyd i gefnogi holl staff y Cyngor gyda secondiadau yn cael eu hannog er mwyn i staff dderbyn profiadau gwahanol a bod nifer o secondiadau wedi eu cynnig i swyddi yn ymwneud â phrosiectau blaenoriaeth o fewn Cynllun y Cyngor.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Dymunwyd longyfarch y gwasanaeth am y Cynllun Prentisiaethau gan gydnabod pwysigrwydd y cynllun i roi cyfleon i bobl Gwynedd i weithio a hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Gofynnwyd pam nad oes cyfeiriad at y prosiect Merched Mewn Arweinyddiaeth yn yr adroddiad a gofynnwyd a oes modd cynnwys paragraff am y prosiect hwn yn yr adroddiad.
  - Cydnabuwyd y dylai cyfeiriad at y prosiect yma fod yn yr adroddiad gan fod y prosiect yn un pwysig sy'n mynd i'r afael â rhaniad dynion/merched mewn swyddi Rheolaethol yn y Cyngor. Adroddwyd bod ffrwyth y prosiect i'w weld gyda 41% o Reolwyr y Cyngor bellach yn ferched; nodwyd bod y ffigwr hwn dipyn yn is bum mlynedd yn ôl.
  - Cytunwyd i ychwanegu paragraff am y prosiect Merched mewn Arweinyddiaeth yn yr adroddiad.
- Cwestiynwyd os yw trosiant staff uchel yn beth da yntau drwg gan fynegi bod trosiant uchel i'w weld mewn rhai Adrannau megis yr Adran Economi a Chymuned. Tybiwyd bod hyn oherwydd natur grantiau a'r heriau yn ymwneud â hynny a gofynnwyd a oes lle i bryderu am y ffigyrau hyn.
  - Mewn ymateb nodwyd bod trosiant staff yn anwadal o Adran i Adran er enghraifft bod trosiant staff yn yr Adran Gwasanaethau Corfforaethol wedi bod ar ei uchaf eleni ond ar ei isaf llynedd. Cytunwyd bod natur cyflogaeth yr Adran Economi yn ffactor efo swyddi yn cael eu cyflogi gan wahanol grantiau a chytundebau dros dro neu dymor byr yn sgil hynny. Credwyd bod

hyn yn dylanwadu ar sefyllfa unigolion a'u penderfyniadau. Cynigiwyd trafod efo'r Adran Economi i weld be all y Cyngor ei wneud i fynd i'r afael a'r mater.

- Holwyd os mai Cyngor Gwynedd yw'r unig Gyngor sydd yn cynnig cyfleon Prentisiaethau a Hyfforddeion Proffesiynol drwy gyfrwng y Gymraeg.
  - Credwyd fod hyn yn gywir gan nodi yn ogystal fod y Cyngor yn dylanwadu yn allanol ar golegau a phrifysgolion o ran y cyrsiau sy'n cael eu cynnig yn Gymraeg ac yn hyrwyddo'r hyn mae'r Cyngor yn ei gynnig mewn colegau a phrifysgolion.

## 10. CYNLLUN A FFIOEDD PARCIO

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Gerwyn Jones (Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd – Trafnidiaeth)

**PENDERFYNIAD**

1.1 Cymeradwywyd a galluogwyd y Gwasanaeth Parcio i fwrw ymlaen i wireddu dau gynllun arbedion sydd wedi eu cymeradwyo gan Gabinet y Cyngor yn 2023/24, sef:
- 1.1.1 Cynyddu ffioedd parcio Pen y Gwryd o £2.00 am hanner diwrnod a £4.00 am ddiwrnod llawn i £4.00 am 6 awr a £8.00 am 12 awr.
- 1.1.2 Cynyddu pris Tocyn Parcio Blynyddol o £140 i £145 y flwyddyn a phris Tocyn Parcio Lleol o £70 i £75 y flwyddyn.

1.2 Cymeradwywyd a galluogwyd y Gwasanaeth Parcio i fwrw ymlaen i wireddu dau gynllun arbedion sydd angen ystyriaeth bellach cyn dod i benderfyniad terfynol yn 2024/25, sef:
- 1.2.1 Ymestyn oriau gorfodaeth meysydd parcio arhosiad byr o 10:00 hyd at 16:30 i 9:00 hyd at 17:00.
- 1.2.2 Addasiad i Strwythur Ffioedd Arhosiad Hir Band 2 yn unol a'r hyn a welwch yn Atodiad A.

1.3 Cytunwyd cynyddu holl ffioedd parcio 40% i alluogi'r Gwasanaeth Parcio gyfarch targed incwm sydd yn creu diffyg sylweddol yn y cyllidebau.

1.4 Nodwyd petai Aelodau'r Cabinet yn penderfynu cymeradwyo'r cynlluniau arbed a nodir oddi fewn 1.2.1 ac 1.2.2 bydd 10 diwrnod o gyfnod segur cyn medru trosglwyddo'r mater i Adran Gyfreithiol y Cyngor er mwyn cyflawni cyfnod ymgynghori statudol yn unol a Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol.

1.5 Nodwyd, fel rhan o'r cyfnod ymgynghori, bydd gofyn hanfodol i'r Cyngor hysbysebu'r newidiadau arfaethedig yn y papurau newydd lleol yn ogystal ag arddangos y wybodaeth (cynnwys y ffioedd newydd) mewn safle amlwg yn y meysydd parcio a cheir eu heffeithio.

1.6 Cadarnhawyd y bwriad o fwrw mlaen gyda'r paratoadau er mwyn gweithredu'r holl newidiadau o 1af Ebrill 2025.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd - Trafnidiaeth oedd yn cyfeirio at wireddu dau gynllun arbedion sydd wedi eu cymeradwyo gan y Cabinet i gynyddu ffioedd parcio Pen y Gwryd a chynyddu pris tocyn parcio blynyddol a lleol. Rhoddwyd trosolwg o weddill yr argymhellion er mwyn galluogi'r gwasanaeth Parcio i fwrw mlaen i wireddu'r cynlluniau hyn yn ogystal â chynlluniau arbedion newydd ar gyfer 2024/25.

Manylwyd ar rywfaint o'r ffigyrau sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad ar amcan cyfanswm incwm ychwanegol. Pwysleisiwyd y pwysigrwydd o barhau i edrych ar ôl trigolion lleol y Sir drwy bethau fel y tocyn tymor sy'n resymol iawn am y ddarpariaeth.

Cyfeiriwyd at argymhelliad arall yr adroddiad i gynyddu holl ffioedd parcio 40% i alluogi'r gwasanaeth Parcio gyfarch targed incwm sydd yn creu diffyg sylweddol yn y cyllidebau. Nodwyd bod gwybodaeth gefndirol wedi ei gynnwys yn yr adroddiad yn ogystal ag Atodiadau sydd yn cymharu'r strwythur ffioedd presennol efo'r strwythur ffioedd arfaethedig.

Ychwanegodd y Prif Weithredwr bod chwyddiant allan o reolaeth yn genedlaethol ar hyn o bryd a bod yr adroddiad hwn yn ymgais i ddal fyny efo'r effaith yno ac mai'r sefyllfa ariannol sydd yn gwthio'r Cyngor tuag at nifer o'r penderfyniadau yn yr adroddiad. Ategwyd nad yw'r penderfyniad hwn yn un hawdd ond nad oes penderfyniadau hawdd ar ôl bellach a bod rhaid edrych ar gynyddu incwm mewn rhai meysydd er mwyn gwarchod a gallu parhau i gynnal gwasanaethau mewn meysydd eraill.

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro bod y penderfyniad a geisir yn rhan 1.2.1 a 1.2.2 o'r adroddiad yn faterion ble mae gofyn ymgynghori ar yr elfennau hyn. Cadarnhaodd nad oes angen gofyn i ymgynghori ar weddill yr argymhellion.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth
- Pwysleisiwyd ar y rhesymeg tu ôl i'r penderfyniadau hyn sef gwasgfa ariannol.
- Gofynnwyd i'r Adran sicrhau bod peiriannau ac arwyddion yn oed gyfeillgar pan fyddent yn cael eu haddasu gan fod rhai yn gallu bod yn anodd ei deall.
- Mynegwyd awydd i fod yn agored am y lefi lleol ar ffioedd parcio a beth sydd ar gael i gymunedau gan bod rhywfaint o'r arian o'r maes parcio lleol yn dod yn ôl i helpu efo mentrau cymunedol.
- Mynegwyd balchder nad yw'r ffioedd yn cael eu cynyddu i bobl anabl.
- Nodwyd bod cynnydd pris y tocyn parcio lleol wedi ei gadw mor isel ag oedd yn bosib ac wedi ei gynyddu 3% yn unig o ganlyniad i gais blaenorol gan Aelodau'r Cabinet.

## 11. ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL – CYNLLUN DATBLYGU LLEOL 2023-2024

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd)

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd adroddiad Monitro Blynyddol 6 (Atodiad 1) a chytunwyd i'w gyflwyno i'r Llywodraeth erbyn diwedd mis Hydref 2024.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei fod yn ofyn statudol i fonitro'r Cynllun Datblygu Lleol yn flynyddol ac i gyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd mis Hydref. Nodwyd mai hwn fydd y chweched Adroddiad Monitro Blynyddol sydd yn berthnasol i'r cyfnod 1 Ebrill 2023-31 Mawrth 2024.

Atgoffwyd y Cabinet bod y trefniant cydweithio gyda Chyngor Sir Ynys Môn ar faterion Polisi Cynllunio wedi dod i ben ar 31 Mawrth 2023 a bod tîm Polisi Cynllunio newydd wedi cael ei sefydlu ar gyfer Cyngor Gwynedd. Nodwyd y bydd yr adroddiad hwn yn adrodd ar y dystiolaeth sy'n benodol i Wynedd yn unig. Esboniwyd y bydd casgliadau'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn rhan o'r sail tystiolaeth fydd yn cyfrannu at baratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd.

Manylwyd ar y Fframwaith Fonitro fel sydd wedi ei nodi yn yr adroddiad a'r Cynllun a darparwyd trosolwg o'r dangosyddion allweddol. Tynnwyd sylw at ambell wall yn yr adroddiad, cyfeiriwyd at:

- Y tabl ym mhwynt 3.1.2 o'r adroddiad – 2 ddylai fod wedi ei nodi yn erbyn y cylch gwyn yn hytrach nag 0.
- Y tabl ym mhwynt 3.1.5 o'r adroddiad – 15 ddylai'r ffigwr fod ar y rhes olaf sydd mewn llwyd yn hytrach nag 11.

Ategwyd bod y ffigyrau hyn yn gywir yn yr Atodiad.

Tynnwyd sylw at ran 3.1.6 o'r adroddiad oedd yn rhoi trosolwg o'r casgliadau allweddol yn ogystal a rhan 3.1.8 o'r adroddiad oedd yn nodi barn gyffredinol y Gweithgor Polisi Cynllunio. I gloi nodwyd bod yr adroddiad yn un ffeithiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth a dangosyddion penodol, nodwyd nad oedd sylwadau'r Gweithgor wedi arwain at unrhyw newid i gynnwys yr Adroddiad Monitro Blynyddol. Er hyn pwysleisiwyd bod y sylwadau yn bwysig o ran ystyriaethau wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Diolchwyd i'r Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd am yr adroddiad. Holwyd faint o flynyddoedd sydd ar ôl ar y Cynllun hwn cyn gallu cychwyn ar y Cynllun newydd. Cadarnhawyd mai dwy flynedd sydd ar ôl.
- Gwnaethpwyd sylw fod yr adroddiad hwn yn un ffeithiol am y cyfnod hyd at fis Mawrth 2024 a bod y sylw gan y Gweithgor Polisi Cynllunio am Erthygl 4 yn amherthnasol i'r adroddiad yma am ei fod wedi dod i rym ym mis Medi ond y bydd yn berthnasol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol newydd.

**12. CYLLIDEB REFENIW 2024/25 – ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2024**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Paul Rowlinson

**PENDERFYNIAD**

Gan nodi bod rhagolygon o orwariant o £7.6 miliwn gan adrannau'r Cyngor, derbyniwyd yr adroddiad ar adolygiad diwedd Awst 2024 o'r gyllideb refeniw, a chefnogwyd y camau mae'r Prif Weithredwr wedi eu cyflwyno i ymdrin â'r gorwariant

sylweddol gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Adran Plant a Theuluoedd, Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC a'r Adran Amgylchedd.

Cymeradwywyd trosglwyddiad o £1,868k o danwariant ar gyllidebau corfforaethol i Gronfa Cefnogi Strategaeth Ariannol y Cyngor.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei fod yn manylu ar yr adolygiad diweddaraf o gyllideb refeniw'r Cyngor am 2024/25, a'r rhagolygon tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Nodwyd bod talfyriad o sefyllfa derfynol yr holl adrannau wedi eu cynnwys yn Atodiad 1 o'r adroddiad.

Adroddwyd yn dilyn adolygiad diwedd Awst fod y rhagolygon yn awgrymu y bydd gorwariant o £7.6 miliwn ac y bydd chwech o'r adrannau yn gorwario erbyn diwedd y flwyddyn. Rhagwelir gorwariant sylweddol ar gyfer yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Adran Plant a Theuluoedd, Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC a'r Adran Amgylchedd. Pwysleisiwyd mai nid problem o or-wariant yw hyn ond yn bennaf problem tan-gyllido gan nad yw'r Llywodraeth yn rhoi digon o adnoddau i'r Cyngor. Manylwyd ar y prif faterion a'r meysydd sydd efo gwahaniaeth sylweddol fel sydd wedi ei nodi yn yr adroddiad.

I gloi nodwyd bod adroddiad Cynllun Ariannol Tymor Canolig wedi ei gyflwyno i Gabinet 14 Mai 2024, oedd yn amlinellu cyfundrefn arbedion a thoriadau er mwyn ymateb i'r sefyllfa ariannol. Eglurwyd bod hyn yn cynnwys argymell rhewi gwariant yn ystod y flwyddyn pe byddai'n dod i'r amlwg fod gorwariant sylweddol yn debygol ac ystyrir fod mesur o'r fath yn briodol o ystyried y rhagolygon gorwariant diweddaraf. Cadarnhawyd y bydd rhaid cael cyfuniad o drefniadau rhewi gwariant ynghyd â gwneud defnydd o gronfeydd wrth gefn y Cyngor i gyllido'r blwch ariannol a ragwelir am 2024/25.

I gloi nodwyd bod Cynghorau eraill yn gwneud yr un math o bethau a bod eu rhagolygon nhw yn eithaf tebyg sy'n ategu'r neges bod rhaid i Lywodraeth Cymru ddarparu mwy o gyllid i Awdurdodau Lleol.

Ychwanegodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol bod yr adroddiad yma wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 10 Hydref a manylwyd ar y sylwadau a dderbyniwyd gan y Pwyllgor megis:

- Pryder am y gorwariant ac ar y defnydd o gronfeydd wrth gefn.
- Awydd i dderbyn gwybodaeth bellach am y gwaith a gomisiynwyd gan y Prif Weithredwr; credwyd ei bod yn hanfodol i ganfyddiadau'r gwaith gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor.
- Croesawu'r camau i rewi gwariant yn ystod y flwyddyn fel ymgais i geisio lleihau lefel y gorwariant.
- Derbyn yr argymhellion a'r datganiad nad yw sefyllfa Gwynedd yn un unigryw.

Mynegodd y Prif Weithredwr ei ddiolch i'r Aelod Cabinet am yr adroddiad gan ategu bod y meysydd sydd dan bwysau yn rai cyffredin ar draws Cynghorau'r wlad. Cyfeiriwyd at y gwaith sydd wedi ei gomisiynu i ddeall y diffyg cyllideb a'r gorwariant yn well. Nodwyd bod y gwaith yn dangos yn glir y cynnydd ar y galw ar wasanaethau'r Cyngor. Ategwyd y bydd rhaid cyfarch yr anghenion ychwanegol er nad oes cyllideb

i'w cyfarch sy'n arwain at orwariant. Rhagolygwyd y bydd y Cyngor yn wynebu bwlch ariannol o £14-18 miliwn ac oni bai bod y Cyngor yn stopio darparu gwasanaeth yr unig opsiwn arall ydi codi'r dreth Cyngor yn sylweddol. Nodwyd nad yw'r un o'r opsiynau yn rhai hawdd.

Nodwyd bod rhewi gwariant eisoes yn digwydd e.e. gwariant dewisol ble mae'r risgiau o beidio gwario yn isel; fydd hynny yn cael ei edrych arno ymhellach yn ystod y flwyddyn. Er hyn nodwyd nad oes llawer o gyllidebau dewisol yn bodoli a bod unrhyw gyllidebau dewisol eisoes wedi eu torri.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Credwyd bod y Cyngor eisoes wedi torri ac wedi gwneud arbedion o tua £60 miliwn yn barod dros y 10 mlynedd ddiwethaf sydd yn doriad anferthol.
- Ategwyd bod peidio â chynnig gwasanaethau yn beryglus o safbwynt lles ac iechyd trigolion Gwynedd.
- Pwysleisiwyd mai Llywodraeth San Steffan sydd wedi bod yn torri'r cyllidebau i Gynghorau Cymru dros y 10 mlynedd diwethaf ac o ganlyniad fod Cyngor Gwynedd wedi cael ei orfodi i wneud toriadau. Nodwyd bod torri arian i Gynghorau ddim yn ateb y problemau sy'n cael eu creu yn Llundain.
- Cyfeiriwyd at benderfyniadau gwleidyddol bwriadol i dorri cyllidebau y sector gyhoeddus gan fynegi nad yw'r Llywodraeth yn Llundain yn edrych ar ôl Cymru.
- Amlygwyd y cyd-weithio da sy'n digwydd efo Adran Gyllid y Cyngor gan nodi bod hyn yn galonogol yn ogystal â'r symudiad i edrych ar y sefyllfa gyllidebol yn gorfforaethol a bod cydweithio da rhwng Adrannau'r Cyngor. Nodwyd bod y diffyg arian yn arwain at deimlad o uno o fewn y Cyngor sy'n rhywbeth newydd.
- Eglurodd y Prif Weithredwr bod gan y Cyngor rywfaint o arian wrth gefn i ddelio efo sefyllfa tymor byr e.e. £4 miliwn o orwariant eleni, ond ni fydd arian wrth gefn ar gyfer delio efo'r bwlch ariannol o £14-18 miliwn a ragwelir ar gyfer flwyddyn nesaf.
- Nodwyd bod Llywodraeth Cymru yn cynllunio darpariaeth ar gyfer Cynghorau fydd yn methu gosod cyllideb er nad oes manylion ar y cynlluniau hyn. Credwyd mai cyngor yn unig fydd yn cael ei roi oni bai i fenthyciadau gael eu cynnig fydd yn arwain at fylchau ariannol pellach yn y dyfodol.
- Gofynnwyd beth yw'r sefyllfa pan fydd Cyngor yn methu gosod cyllideb. Mewn ymateb nododd y Swyddog Monitro bod yr un ddarpariaeth statudol yn bodoli yn Lloegr ac yng Nghymru o ran Adran 114 sef ymyrraeth uniongyrchol drwy Lywodraeth Cymru fyddai â'r un effaith a gweinyddwyr i gwmni.

## 13. RHAGLEN GYFALAF 2024/25 – ADOLYGIAD DIWEDD Awst

**PENDERFYNIAD**

- Derbyniwyd yr adroddiad ar adolygiad diwedd Awst (sefyllfa 31 Awst 2024) o'r rhaglen gyfalaf.

- Cymeradwywyd yr addasiadau canlynol i'r Gyllideb Gyfalaf a gymeradwywyd ar 7 Mawrth 2024 o safbwynt dulliau ariannu'r rhaglen (fel nodir yn rhan 3.2.3 o'r adroddiad), sef:

- cynnydd o £370,000 mewn defnydd o fenthyca
- cynnydd o £17,080,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau

- lleihad o £51,000 mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf
- cynnydd o £1,260,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad oedd yn amlygu rhaglen gyfalaf (sefyllfa diwedd Awst 2024) ynghyd a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Rhedwyd drwy'r adroddiad oedd yn rhoi dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £169.8 miliwn am y 3 blynedd 2024/25 – 2026/27. Manylwyd ar y ffynonellau i ariannu'r cynnydd net sydd oddeutu £51.6miliwn ers y gyllideb wreiddiol, gyda £33miliwn ohono yn deillio o ail broffilio ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol.

Nodwyd y prif gasgliad bod cynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi £117 miliwn yn 2024/25 ar gynlluniau cyfalaf, gyda £48.8miliwn (42%) ohono wedi'i ariannu trwy grantiau penodol. Adroddwyd bod £17.2 miliwn ychwanegol o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o 2024/25 i 2025/26 a 2026/27 a nodwyd y prif gynlluniau sydd wedi llithro ers y gyllideb wreiddiol fel sydd wedi eu nodi yn yr adroddiad. Yn ogystal rhestrwyd y grantiau ychwanegol y llwyddodd y Cyngor i'w denu ers yr adolygiad diwethaf.

Cyfeiriwyd at y wybodaeth am Ddangosyddion Darbodus Cyfalaf y Cyngor gan amlygu, yn unol â'r Cod Darbodus gan CIPFA, bod rhaid adrodd ar y wybodaeth. Ategwyd bod y Cyngor wedi cydymffurfio yn llawn gyda pholisi ar fenthyca at ddibenion cyfalaf.

Nodwyd bod yr adroddiad hwn wedi mynd ger bron y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 10 Hydref ond nad oedd sylwadau i'w hadrodd.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Gofynnwyd a yw grantiau cyfalaf y Llywodraeth yn gostwng erbyn hyn. Mewn ymateb nodwyd bod dyraniad cyfalaf wedi aros ar yr un lefel ers 15 mlynedd, er gwaethaf chwyddiant. Nodwyd bod y diwylliant grantiau yn parhau i fodoli a bod y Cyngor yn ymgeisio am grantiau o hyd. Ychwanegwyd y bydd cyhoeddiad ar y gyllideb ymhen pythefnos a bydd gwybodaeth bryd hynny am y grantiau ychwanegol. Nodwyd mai'r neges ar hyn o bryd yw nad oes mwy o gyfalaf ac efallai bydd y cyfleoedd grantiau yn cael eu cwtogi.

**14. TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION**
**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd y wybodaeth yn yr adroddiad a nodwyd y cynnydd tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2024/25 a blynyddoedd blaenorol.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad sy'n crynhoi sefyllfa arbedion y Cyngor. Adroddwyd er mwyn cau'r bwlch ariannol eleni, rhaid oedd gweithredu gwerth £5.6 miliwn o arbedion yn ystod 2024/25, sydd yn gyfuniad o £3.6 miliwn oedd wedi eu cymeradwyo yn Chwefror 2023 ac arbedion newydd a gymeradwywyd yn Chwefror 2024 gwerth £2 filiwn. Nodwyd bod trafferthion gwireddu arbedion mewn rhai meysydd, oedd amlycaf

yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a’r maes gwastraff. O ganlyniad bu i werth £2 filiwn o gynlluniau oedd â risgiau sylweddol i gyflawni gael eu dileu yn ystod 2023/24.

Nodwyd bod arbedion perthnasol i 2024/25 yn Atodiad 1 ac hefyd yn atodiad 2 gyda Atodiad 1 yn dangos cynlluniau arbedion hanesyddol am y cyfnod o’r flwyddyn ariannol 2015/16 hyd at y flwyddyn ariannol 2024/25. Ychwanegwyd bod Atodiad 2 yn dangos y cynlluniau arbedion newydd gwerth £12 miliwn ac fod 65% o’r arbedion eisoes wedi eu gwireddu a 8% pellach ar drac i gyflawni’n amserol. Mynegwyd bod risgiau i wireddu’r arbedion mewn rhai meysydd gyda’r prif rai yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a’r Adran Amgylchedd.

I gloi nodwyd bod Atodiad 3 yn nodi gwerth yr arbedion sydd eisoes wedi eu cymeradwyo ar gyfer 2025/26 ymlaen. Mynegwyd bod cynlluniau arbedion a thoriadau pellach ar gyfer 2025/26 eisoes dan ystyriaeth gan y Cyngor ac mi fyddant yn destun adroddiad yn fuan. Cadarnhawyd bod £41.7 miliwn o arbedion wedi eu gwireddu sydd yn 90% o’r £46.6 miliwn gofynnol dros y cyfnod. Rhagwelir y bydd 2% pellach yn cael ei wireddu erbyn diwedd y flwyddyn ariannol ond fod yna oediad a rhai risgiau i gyflawni'r cynlluniau sydd yn weddill.

Ychwanegodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol bod yr adroddiad yma wedi ei gyflwyno i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 10 Hydref a manylwyd ar y sylwadau a dderbyniwyd gan y Pwyllgor megis:

- Croesawu bod 90% o’r arbedion ers Ebrill 2015 wedi eu cyflawni sydd werth £41.7 miliwn ond yn pryderu am y swm o £4 miliwn o arbedion na fydd yn cael eu cyflawni eleni ac felly yn ychwanegu at y pwysau ariannol.
- Nodi bod gwerth £557,000 o arbedion hanesyddol sydd yn parhau heb eu cyflawni yn Atodiad 1. Roedd y Pwyllgor yn awyddus bod y darlun cyfredol yn cael ei wahanu o’r sefyllfa hanesyddol fel bod modd adnabod risgiau i’r sefyllfa gyfredol.

Sylwadau’n codi o’r drafodaeth

- Mynegwyd bod symiau’r arbedion sydd wedi eu cyflawni yn uchel iawn. Nodwyd mai toriadau ydynt mewn gwirionedd nid arbedion. Credwyd bod lle i ddiolch am beth mae’r Adrannau wedi ei gyflawni hyd yma gan ymdrechu i gynnal gwasanaethau'r un pryd.

## 15. EITEM EITHREDIG

Penderfynwyd cau allan y wasg a’r cyhoedd o’r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y’i diffinnir ym mharagraff 14 o Atodiad 12A o o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 - Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth fasnachol heb ei gyhoeddi. Mae’r adroddiad yn benodol ynglŷn a materion ariannol a busnes ynghyd a thrafodaethau cysylltiedig Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o’r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau’r tendrwyr a’r Cyngor Byddai hyn yn groes i’r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau yr allbwn

cyfansawdd gorau. Am y rhesymau yma rwy'n fodlon fod y mater yn gaeedig er y budd cyhoeddus.

## 16. COSTAU SYSTEM GOFAL CYMDEITHASOL NEWYDD (WCCIS)

**PENDERFYNIAD**

- Rhoddwyd awdurdod cyllidol i fwrw ymlaen ar sail yr achos busnes i brynu system ddata Gwasanaethau Cymdeithasol newydd ar y cyd â'r Clwstwr Rhanbarth Gogledd Cymru.
- Er cyflawni (a), rhagdybiwyd y broses ceisiadau ariannol ar gyfer 2025/26 ar gyfer cyllid un-tro ac yna cyllid refeniw blynyddol o 2026 ymlaen.

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr adroddiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 1:00pm a daeth i ben am 4:00pm

______________________________

**CADEIRYDD**